Byw i weddïo, gweddïo i fyw

Ufudd-dod / ymddiriedaeth

Michel Quoist: 1921-

Offeiriad a chaplan yn yr Eglwys Babyddol oedd Michel Quoist. Yn 60au'r ganrif ddiwethaf ysgrifennodd lyfr o weddïau yn Ffrangeg. Cyfieithwyd y gweddïau hyn i dros bump ar hugain o wahanol ieithoedd. Mae llawer ohonyn nhw wedi eu cyfieithu i'r Gymraeg. Dyma gyfle i holi Michel Quoist.

Beth yn union oedd eich gwaith?

Offeiriad yn yr Eglwys Babyddol yn Ffrainc oeddwn i. Roeddwn ar un cyfnod yn Gaplan Ieuenctid, hynny yw, roeddwn yn gofalu am bobl ifanc yn ardal Le Havre. Ond nid gyda'r bobl ifanc yn unig roeddwn yn gweithio ond gyda phawb. Hen ac ifanc. Myfyrwyr a gweithwyr yn y porthladd. Roeddwn i am i bawb glywed am Dduw.

Pam yr aethoch ati i ysgrifennu llyfr o weddïau?

Wrth feddwl am Dduw, rydyn ni'n meddwl am Dduw sydd wedi creu'r byd. Ac mae hynny'n wir, wrth gwrs. Ond fe all ein syniad am Dduw felly greu yn ein meddyliau Dduw sy'n bell, bell oddi wrth ei bobl. Yn y gweddïau rydw i eisiau dangos bod Duw yn Dduw agos iawn atom. Mae o'n Dduw sy'n rhan o fywyd bob dydd pob un ohonom. Hwn ydi Duw y stryd, y cae pêl-droed, y swyddfa a'r ysgol. Mae Duw yn Dduw real ac felly mae gweddi yn beth real iawn ym mywyd pob un ohonom.

Beth felly ydi cefndir y llyfr?

Gan fy mod yn cyfarfod â gwahanol fathau o bobl yn fy ngwaith bob dydd, roeddwn hefyd yn gwybod am eu problemau. Nid wrth fy nesg yn y tŷ roeddwn i'n creu'r gweddïau hyn, ond roedden nhw'n codi o fywyd bob dydd pobl gyffredin. Ar ôl i mi ysgrifennu'r gweddïau, ces gyfle wedyn i'w trafod efo pobl oedd yn aelodau yn fy eglwys. Fe ddaeth y gweddïau hyn i fod o brofiadau pobl yn chwilio am Dduw ym mhroblemau a llawenydd bywyd. Penawdau rhai o'r gweddïau hyn ydi , "Teliffon", "Tractor", "Yn yr ysbyty", "Yn nhŷ ffrind". Pethau bob dydd ydi'r rhain i gyd. Ac fe wnawn ni ddarganfod Duw yn y pethau hynny.

Oes gennych chi neges i bobl ifanc heddiw?

Oes, yr un neges oedd gen i pan ysgrifennais i fy llyfr. Rwy'n credu bod llawer o bobl ifanc a phobl o bob oed wedi cael digon ar gymdeithas faterol. Mae rhai pobl yn credu mai arian ydi popeth. Dim ond cael digon o arian ac yna fe allwn gael unrhyw beth. Y cwestiwn i lawer heddiw ydi nid, "sut i fyw" ond "pam byw". Y neges ydi darganfod Duw ac yna bydd hynny yn rhoi ystyr i fywyd.

Gawn ni glywed rhan o un o'ch gweddïau?

Y Teliffon

Mi rydw i newydd orffen ar y ffôn. Pam y canodd y ffôn?
Dydw i ddim yn gwybod...O! mi rydw i yn deall yn awr.
Fe siaradais i lawer a gwrando fawr ddim.
Maddau i mi, Arglwydd, nid deialog oedd yna.
Gan nad oeddwn i'n gwrando, ddysgais i ddim.
Gan nad oeddwn i'n gwrando, wnes i ddim helpu.
Gan nad oeddwn i'n gwrando, wnaethon ni ddim cyfathrebu.
Maddau i mi, Arglwydd, roeddwn i'n siarad, a dim ond y fi, ond yn awr mae'r llinell yn fud.

Michel Quoist, diolch i chi am rannu eich profiadau efo ni.

"Daliwch ati i weddïo."

Rhufeiniaid 12:12

O Dad,
weithiau dydw i ddim eisiau gwneud dim byd,
dim ond eistedd a synfyfyrio,
meddwl am ddim byd na gwneud dim byd.
Mae'n siŵr dy fod yn deall.
Amen.

Beth am fynd ati i lunio gweddïau ar bethau bob dydd bywyd?

Michel Quoist: 1921-